

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD A'R NOS LUN 28AIN O FEHEFIN 2021 TRWY "MICROSOFT TEAMS" AM 7.00 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Ceri Davies, Bari Evans, Arwel Davies Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Stan Williams, Hywel Davies, Geraint Jones a Falmai Evans.

3. DDATGAN DIDDORDEB: Dim yn Codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR A GYNHALIWDYD A'R 26AIN O FAI 2021. Cadarnhawyd cofnodion 24ain o Fai 2021 gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Dŷ Gobraith am gefnogaeth arian y Cyngor.

B. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Gwmni Yswiriant BHIB Ltd am adnewyddu'r polisi yswiriant.

C. Mae'r Adran Briffyrdd wedi nodi bod angen gwaith ar y ffyrdd canlynol:-

1: ffordd rhwng Bryn Mulan a Pen-y-Groes, Prion.

2. Ffordd rhwng Llys a Rosa Fawr ar ffordd Prion.

3. Ffordd heibio Rhiwlas Isaf ym Mhrion.

4. Allt College at Pen-y-Gerddi ym Mheniel.

5. Ffordd heibio Nant at a heibio Rhewl Valley ym Mheniel.

6. Fferm leir at ben lôn Drws-y-Buddel yn Saron.

D. Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Cyngor Sir Ddinbych ei fod yn dal i ddisgwyl ymateb Swyddogion Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych sydd yn edrych i mewn ar waith answyddogol sydd wedi cychwyn ar y ddau safle presennol yn ddiweddar:-

1: Llyn Pysgota Cae'r Mynydd yn Saron.

2. Cyn Eglwys Prion ym Mhant Pastynog.

6. SEDD WAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd adroddiad y Clerc nid oedd yna unrhyw gais wedi ei dderbyn i lenwi'r sedd wag y Cyngor ac mi fydd yr hysbyseb y Cyngor i'r sedd wag yn dal yn bodoli.

7. ADRODDIAD CYFARFOD "BROADBAND BROADWAY" A GYNHALIWDYD AR 3YDD O FEHEFIN 2021.

Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd yn dilyn cyfarfod ar gyd rhwng "Broadband Broadway" ar Gynghorau Cymunedol Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch a Cyffylliog ar 3ydd o Fehefin 2021 fod cwmni "Broadband Broadway" yn disgwyl cadarnhad os mae'r Llywodraeth newydd Cynulliad Cymru, yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ar 6ed o Fai 2021, yn fwriadu'r grant o £1,500 i bob preswyl a £3,000 i bob busnes sydd angen band eang cyn bwrw ymlaen gyda'r prosiect.

8. DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

9. MATERION CYLLID.

A. Datganiad Banc £11,541.00.

B. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2021 £502.10.
2. HM Revenue & Customs am PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2021 £125.40.

10. I DRAFOD CEISIADAU CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ERBYN Y CYFARFOD.

Nid dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio i'w thrafod.

11. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd manylion "Cynllunio ar gyfer Awyr Dwyll" oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych.

12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

A: Cytunodd y Cynghorydd Sir Ddinbych, Joe Welch, gofyn i'r Cyngor Sir os mae'r tir comin wrth yr Ysgol Pant Pastynog mewn perchnogaeth yr Ysgol/Cyngor Sir.

B. Derbyniwyd adroddiad fod y Cyngor Sir wedi cwblhau gwaith da ar y ffordd rhwng Prion a Saron.

C. Penderfynwyd hysbysu'r Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Eisiau arwydd ar y ffordd Prion i Saron cyn trosiad Ysgol Pant Pastynog yn hysbysu'r Ysgol Pant Pastynog.
2. Ffordd heibio Pen Caed yn Saron eisiau gwaith thrwsio.
3. Dim marciau "Ildiwch" ar y gyffordd wrth Efail-y-Gro, Prion.

13. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Nid chodwyd unrhyw fater brys.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – NOS LUN 26AIN O ORFFENNAF 2021.